Powys NEWYDDION | NEWS

# Cabinet i ystyried adroddiad gwrthwynebu cau campws Cradoc

**11 Mai 2026**

Gallai campws ysgol gynradd yn ne Powys gau yn ddiweddarach eleni pe bai'r Cabinet yn rhoi sêl bendith i hynny yr wythnos nesaf, meddai'r cyngor sir.

Mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu cau campws Cradoc Ysgol Golwg Pen y Fan ac yn gynharach eleni (Mawrth) cyhoeddodd hysbysiad statudol yn cynnig y newid yn ffurfiol.

Yn ystod y cyfnod rhybudd statudol, derbyniwyd un gwrthwynebiad.

Ddydd Mawrth, Mai 19, bydd y Cabinet yn derbyn ac yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu a gofynnir iddo gymeradwyo'r cynnig i gau campws Cradoc gyda disgyblion yn trosglwyddo i gampysau eraill Ysgol Golwg Pen y Fan yn Aberhonddu.

Mae'r cynnig, sy'n cyd-fynd â Strategaeth y cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, yn cael ei yrru gan ystod o fanteision addysgol a gweithredol.

Ochr yn ochr â hyn, mae cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn symud ymlaen gyda momentwm gwirioneddol ac mae'r cyngor wedi penodi Willmott Dixon fel prif gontractwr. Bydd y cyngor nawr yn gweithio gyda nhw ar ddylunio'r adeilad newydd, a phan fydd hwnnw wedi ei adeiladu, fe fydd yn darparu

# Cabinet to consider Cradoc campus objection report

**11 May 2026**

A campus of a south Powys primary school could close later this year if given the go-ahead by Cabinet next week, the county council has said.

Powys County Council is proposing to close the Cradoc campus of Ysgol Golwg Pen y Fan and earlier this year (March) published a statutory notice formally proposing the change.

During the statutory notice period, one objection was received.

On Tuesday, May 19, Cabinet will receive and consider the objection report and will be asked to approve the proposal to close the Cradoc campus with pupils transferring to the other campuses of Ysgol Golwg Pen Y Fan in Brecon.

The proposal, which aligns to the council's Strategy for Transforming Education in Powys, is driven by a range of educational and operational benefits.

Alongside this, plans for the school's new building are moving forward with real momentum with the council has appointed Willmott Dixon as principal contractor. The council will now be working with them on the design of the new building, which once built, will provide a vibrant, modern home for

cartref bywiog, modern ar gyfer dysgu, twf, a chyfleoedd i ddisgyblion a staff.

Dywedodd y Cynghorydd James Gibson-Watt, Aelod Cabinet dros Bowys sy'n dysgu: "Ar ôl ystyried y gwrthwynebiad yn ofalus, byddaf yn argymell i'r Cabinet eu bod yn cymeradwyo'r cynnig i gau campws Cradoc Ysgol Golwg Pen y Fan.

"Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r dechrau gorau posibl i'n dysgwyr ac rydym yn credu y bydd ein Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cyflawni hyn.

"Fel rhan o'r strategaeth, mae angen i ni fynd i'r afael â'r gyfran uchel o ysgolion bach yn y sir, y niferoedd o ddisgyblion sy'n gostwng a'r nifer uchel o leoedd dros ben.

"Bydd dod â staff a disgyblion at ei gilydd yn cefnogi cydweithredu cryfach, yn caniatáu grwpio mwy effeithiol yn ôl gallu neu angen, ac yn meithrin datblygiad cymdeithasol trwy grwpiau cyfoedion mwy. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n fwy hyfyw i redeg clybiau, timau chwaraeon, a gweithgareddau cyfoethogi.

"Nid ar chwarae bach y cafodd y penderfyniad hwn ei wneud, ond credwn ei fod yn rhoi mwy o sicrwydd cyn symud i'r adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Golwg Pen y Fan."

I ddarllen y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg 2020-2032 wedi'i diweddaru a manylion y Rhaglen Trawsnewid Addysg - Ton 2 (2022 - 2027) ewch i https://en.powys.gov.uk/transformingeducation

DIWEDD

learning, growth, and opportunity for both pupils and staff.

Cllr James Gibson-Watt, Cabinet Member for a Learning Powys, said: “After carefully considering the objection, I will be recommending to Cabinet that they approve the proposal to close the Cradoc campus of Ysgol Golwg Pen Y Fan.

“We are committed to securing the best possible start for our learners and we believe that our Strategy for Transforming Education in Powys will achieve this.

“As part of the strategy, we need to address the high proportion of small schools in the county, decreasing pupil numbers and the high number of surplus places.

“Bringing staff and pupils together will support stronger collaboration, allow for more effective grouping by ability or need, and foster social development through larger peer groups. It also makes it more viable to run clubs, sports teams, and enrichment activities.

“This proposal has not been made lightly, but we believe it provides greater certainty ahead of the move to the new school building for Ysgol Golwg Pen y Fan.”

To read the updated Strategy for Transforming Education 2020-2032 and details of the Transforming Education Programme - Wave 2 (2022 - 2027) visit https://en.powys.gov.uk/transformingeducation

ENDS

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.

Powys

CRYFACH tecach GWYRDDACH | STRONGER fairer GREENER